

Adroddiad y Gymraeg 2019-20

Awst 2020



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

| | |
|-----------------------------------|----------|
| Adroddiad manwl | 4 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cyfathrebu â'r staff am y safonau | 5 |
| Strategaeth y Gymraeg | 6 |
| Recriwtio | 7 |
| Sgiliau Cymraeg a hyfforddiant | 8 |
| Llunio polisiau | 10 |
| Cwynion | 11 |



Adroddiad manwl

Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn am y Gymraeg yn amlinellu'r gwaith a wnaed gennym i hyrwyddo'r iaith yn Archwilio Cymru yn ystod 2019-20, ac yn rhoi cipolwg ar ein sefyllfa ar hyn o bryd.
- 2 Archwilio Cymru yw brand ymbarél Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, ond nid yw'n endid cyfreithiol ynddo'i hun, ac fe ddechreuwyd defnyddio'r brand ar 1 Ebrill 2020. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol eu hysbysiadau cydymffurfio eu hunain o ran y Gymraeg, ac maent yn dal i fod yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r perfformiad o ran y ddwy set o safonau. Fe'i rhennir ar wefan Archwilio Cymru a thrwy ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, a bydd hefyd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd.
- 3 Cafodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru eu hysbysiadau cydymffurfio o ran Safonau'r Gymraeg (y safonau) ym mis Gorffennaf 2016. Mis Ionawr 2017 oedd dyddiad gosod llawer o'r safonau hyn; daeth 14 safon arall i rym yn ystod 2017-18 ac wyth yn 2018-19.
- 4 Ochr yn ochr â'r safonau, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n disgrifio'r ffordd yr ydym wedi cydymffurfio â safonau penodol a chydymffurfio'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Er mai asesu cydymffurfiaeth yw prif swyddogaeth yr adroddiad hwn, mae hefyd yn gyfle inni ystyried yr hyn a wnaed gennym i hyrwyddo defnydd ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol, a phennu sut y gallwn wella'r sefyllfa ymhellach.

- 5 Rydym yn amlinellu ein trefniadau i gydymffurfio â'r safonau ar ein gwefan. Mae Archwilio Cymru'n cyflogi Swyddog y Gymraeg ar sail amser llawn, ac mae yntau'n gyfrifol am reoli'r safonau o ddydd i ddydd ac am hyrwyddo'r Gymraeg yn y sefydliad. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar y Gymraeg ac am faterion llywodraethu corfforaethol sy'n gysylltiedig â hi.
- 6 Cynhaliwyd amrywiaeth eang o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac rydym yn rhoi manylion isod. Gallwn wneud mwy, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae Strategaeth y Gymraeg yn allweddol i'r gwaith hwn. Mae'n amlinellu'r sefyllfa ar hyn o bryd, ein huchelgeisiau, a'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd i'w gwireddu.

Cyfathrebu â'r staff am y safonau

- 7 Mae'n bwysig rhoi gwybod i'r staff am ofynion y safonau i sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael iddynt – gan gynnwys cyfleoedd i ddysgu, technoleg, a deunydd adnoddau dynol. Mae hefyd yn bwysig cyfathrebu i sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y safonau, er enghraifft pan fyddant yn ateb galwadau ffôn neu ohebiaeth allanol.
- 8 Pan fydd staff newydd yn cyrraedd y sefydliad, maent yn cael sesiwn gynefino bwrpasol lle maent yn cael cyflwyniad i'r safonau o ran eu gwaith a'u cyflogaeth. Mae hefyd yn ofynnol i staff newydd di-Gymraeg gwblhau cwrs Cymraeg Gwaith ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol lle maent yn dysgu ychydig o Gymraeg sylfaenol ar gyfer y gweithle ac yn ennyn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Ceir mwy o wybodaeth am hyn ym **mharagraff 22**.
- 9 Rydym wedi darparu i'r staff nifer o adnoddau a chanllawiau am y safonau hynny sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio. Er enghraifft, rydym yn darparu canllawiau a thempledi ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon 'allan o'r swyddfa', gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o deitlau swyddi. Mae cyfres o dechnolegau Cymraeg hefyd ar gael i'r staff yn ôl y gofyn, gan gynnwys 'Cysill' a 'Cysgeir', gwirydd sillafu Cymraeg Microsoft Office, a 'To Bach'.
- 10 Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, aethom ati i ailwampio tudalennau'r Gymraeg ar ein mewnrwyd, yr Hwb, i sicrhau bod y testun sy'n cynnwys yr wybodaeth uchod yn gliriach ac yn symlach. Erbyn hyn, mae'r tudalennau'n cynnwys mwy o gyngor ac adnoddau i rai sydd am wybod mwy am y safonau, am ddysgu Cymraeg, ac am ein gwasanaeth cyfieithu.

- 11 Mae ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlinellu'r safonau perthnasol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau ein staff o ddydd i ddydd. Yn eu plith mae ateb galwadau ffôn a gohebiaeth, parchu dewisiadau iaith y cyrff a archwilir a'r cyhoedd, a materion i'w hystyried cyn arddangos posteri ac arwyddion yn ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu bod rhaid i bob e-bost at yr holl staff fod yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg yn cael ei osod yn y man lle mae'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu hawliau newydd y staff o dan y safonau, fel yr hawl i gael technolegau Cymraeg, yr hawl i gael mynediad at hyfforddiant Cymraeg, a'r hawl i gael hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn tynnu sylw at eu hawliau i gael dogfennau adnoddau dynol, yn ogystal â chyfarfodydd disgyblu a chwynion cyflogaeth, yn Gymraeg.
- 12 Mae polisi'r Gymraeg ar gael i'n staff ei ddarllen ar ein mewnrwyd, ac rydym yn bwriadu ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod yr haf 2020.

Strategaeth y Gymraeg

- 13 Ym mis Mehefin 2019, cytunodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar Strategaeth y Gymraeg a fyddai'n para tair blynedd. Un o'r prif resymau dros lunio'r strategaeth hon oedd y penderfyniad i beidio â defnyddio cwmnïau i gynnal rhai o'n harchwiliadau yn y dyfodol, gan fod llawer o'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal mewn sefydliadau y mae'n well ganddynt ymwneud â'u gwaith yn Gymraeg. Rheswm pwysig arall oedd niferoedd ein siaradwyr Cymraeg, y ffaith na chafwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, a lleoliad ein siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad.
- 14 Mae'r strategaeth yn trafod pedwar maes pwysig i'w datblygu – recriwtio, hyfforddiant, cyfleoedd, a gwybodaeth. Mae llawer o'r camau gweithredu a ddisgrifir yn adroddiad eleni'n deillio o'r strategaeth hon, fel diweddarau ein Matrics Sgiliau Cymraeg a'n hachos busnes ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag, defnyddio dulliau amgen i ddysgu Cymraeg, a chynnal sesiynau coffi a chlonc. Mae gweithgareddau eraill yn mynd rhagddynt nad ydynt yn cael eu disgrifio fan hyn, fel annog dysgwyr i ymuno ag archwiliadau cyfrwng Cymraeg i helpu i feithrin eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- 15 Er nad yw'n ofynnol inni lunio Strategaeth y Gymraeg yn unol â'r safonau, rydym yn tybio bod hon yn ffordd dda o ddangos ein hymrwymiad ac o sicrhau ein bod yn mynd gam ymhellach na chydymffurfio yn unig. Rydym yn tybio mai'r safonau yw sylfaen yr hyn y dylem fod yn ei wneud o ran yr iaith, ac felly mae'r eitemau a drafodir yn y strategaeth hon yn mynd gam ymhellach na'r safonau neu'n atgyfnerthu'r hyn a ddarperir ganddynt.

Recriwtio

- 16 Un o gamau gweithredu Strategaeth y Gymraeg oedd diweddarau ein cwestiynau am sgiliau Cymraeg yn ein hachos busnes ar gyfer swyddi newydd neu swyddi gwag. Roeddem yn tybio y gallem fynd gam ymhellach i dywys rheolwyr sy'n recriwtio i roi ystyriaeth lawn i'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd.
- 17 Mae'r ffurflen ar ei newydd wedd yn gofyn cwestiynau am y graddau y bydd deiliad y swydd yn dod i gysylltiad â phobl tu allan i'r sefydliad, y graddau y mae'r tîm yn gallu bodloni dewisiadau iaith ei gleientiaid ar hyn o bryd, a pha mor gydnerth yw'r tîm os bydd rhaid iddo ymateb i newidiadau staffio neu newidiadau i ddewisiadau iaith.
- 18 Rydym yn monitro dewisiadau iaith y cyrff a archwilir drwy gynnal arolwg bob tair blynedd. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ym mis Mawrth 2019. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Mai 2019 ac maent ar gael i'r holl staff eu gweld ar ein mewnrwyd. Yn ystod yr arolwg hwn, aethom ati i annog sefydliadau i gynnwys swyddogion o'r gwasanaethau democrataidd, cynorthwyr ysgrifenyddol y bwrdd, swyddogion y Gymraeg, a phenaethiaid cyllid i gael y darlun mwyaf cywir posibl o'u dewisiadau iaith.
- 19 Yn ystod 2019-20, bu inni hysbysebu 60 swydd newydd neu swydd wag, gan recriwtio'n fewnol ac yn allanol drwy gynnal 21 ymgyrch. Hysbysebwyd bod sgiliau Cymraeg yn 'hanfodol' ar gyfer tair o'r swyddi hyn ac yn 'ddymunol' ar gyfer 37 ohonynt. Ni phennwyd dewis iaith ar gyfer yr ugain swydd arall oherwydd eu bod yn swyddi mewnl yn sgil ailstrwythuro neu er mwyn adleoli staff.
- 20 Llwyddwyd i recriwtio i ddwy o'r tair swydd lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol. Roedd y swyddi hyn yn rhan o'n rhaglen recriwtio graddedigion lle mae nifer yr ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng yn sylweddol. Yn ystod 2020-21, byddwn yn cydweithio'n agosach ag ysgolion, colegau a phrifysgolion Cymru i annog mwy o siaradwyr Cymraeg i wneud cais i ymuno â'n rhaglenni hyfforddi i brentisiaid ac i raddedigion.

Sgiliau Cymraeg a hyfforddiant

21 Amlinellir sgiliau Cymraeg staff Archwilio Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019-20 yn **Nhabl 1**. Ers 2014-15, cafwyd cynnydd o wyth siaradwr Cymraeg ar y lefelau Rhugl neu Uwch sy'n golygu bod 12% o'r sefydliad yn siaradwyr Cymraeg. Mae ein staff yn hunanwerthuso eu sgiliau Cymraeg a'u cofnodi yn y porth hunanwasanaeth. Yn agos at ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rydym yn annog yr holl staff i ddiweddarau ac i gofnodi eu sgiliau Cymraeg ac i nodi eu lefel gan ddefnyddio'r Matrics Sgiliau Cymraeg. Ers hynny, rydym wedi diweddarau'r matrics, a bydd staff yn defnyddio'r matrics ar ei newydd wedd i nodi eu sgiliau.

Tabl 1: Sgiliau Cymraeg holl staff Archwilio Cymru

Nifer staff Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen, canolradd, uwch neu rugl o ran gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg.

| | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|-------------------|------------|------------|------------|------------|
| 0 – Ymwybyddiaeth | 209 | 214 | 214 | 214 |
| 1 – Mynediad | 9 | 6 | 9 | 11 |
| 2 – Sylfaen | 10 | 7 | 4 | 4 |
| 3 – Canolradd | 7 | 8 | 9 | 9 |
| 4 – Uwch | 11 | 13 | 5 | 6 |
| 5 – Rhugl | 22 | 20 | 27 | 24 |
| Cyfanswm | 268 | 268 | 268 | 268 |

- 22 Yn ystod 2019-20, cymerodd staff ran mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth a/neu ddysgu Cymraeg gwerth mwy na 43.5 diwrnod gwaith fel y dangosir yn **Nhabl 2**.

Tabl 2: Hyfforddiant Cymraeg

Yr hyfforddiant Cymraeg a ddarparwyd i staff yn ystod 2019-20.

| | Dyddiadau | Y nifer a gymerodd ran | Cyfanswm yr oriau dysgu |
|---|---|----------------------------------|-------------------------|
| Sesiwn gynefino ymwybyddiaeth o'r Gymraeg | Dyddiadau amrywiol Ebrill 2019 i Fawrth 2020 | 35 | 17.5 |
| | | 41 | |
| Cwrs 'Croeso' Cymraeg Gwaith ar-lein | Ebrill 2019 i 22 Ionawr 2020 | (27 newydd 15 wedi'i gwblhau) | 183 |
| Cwrs 'Gwella' Cymraeg Gwaith ar-lein | Ebrill 2019 i 22 Ionawr 2020 | 3 | 11 |
| Say Something in Welsh | Ebrill 2019 i 9 Mawrth 2020 | 8 | 27 |
| Dosbarthiadau wythnosol | Medi 2019 i Fehefin 2020 | 1 | 60 |

- 23 Eleni, rydym wedi annog staff i ddysgu Cymraeg drwy raglen Say Something in Welsh, ac mae wedi ennyn cryn ddiddordeb ac adborth cadarnhaol iawn. Drwy fod yn rhan o'u rhaglen ar gyfer y gweithle, rydym yn cael diweddariadau rheolaidd am gynnydd ein dysgwyr a chynghor ar ffyrdd o'u helpu yn y gweithle. Rydym yn gobeithio parhau â'r rhaglen yn y dyfodol.
- 24 I gydnabod yr ymroddiad sydd ei angen ar aelod staff i ddysgu iaith newydd, cytunodd yr uwch reolwyr ym mis Mehefin 2016 ar weithdrefn newydd o ran ymrwymadau amser ac ariannol. Mae Archwilio Cymru'n talu am y cyrsiau'n llwyr, a gall staff ddefnyddio hyd at bum diwrnod o'u lwfans hyfforddiant i ddysgu Cymraeg (gyda'r unigolyn ei hun yn neilltuo'r un faint o amser ag a ddarperir gan Archwilio Cymru). Mae'r weithdrefn hefyd yn nodi nad oes raid i'r unigolyn ei hun neilltuo'r un amser ag a ddarperir gan Archwilio Cymru os yw gofyniad iaith ei swydd yn newid i 'hanfodol'.

- 25 Mae mentrau eraill ar waith hefyd i annog staff i ymarfer eu Cymraeg. Cynhelir sesiynau coffi a chlonc bob bore Mawrth am 10am i roi cyfle i staff gael sgwrs sydyn iawn yn Gymraeg yn ystod yr amser y mae'n ei gymryd i wneud paned o de neu goffi. Mae hefyd yn gyfle i rai di-Gymraeg ofyn cwestiynau am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac ymarfer brawddegau a geiriau syml. Rydym hefyd yn arddangos 'Gair y foment' ar sgriniau o amgylch ein swyddfeydd gan roi sillafiad ffonetig y gair a chyfieithiad ohono.

Llunio polisiau

- 26 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal asesiadau o effaith chwe pholisi a phenderfyniad polisi ar y Gymraeg, ac mae asesiad arall yn dal i fynd rhagddo fel y dangosir yn **Nhabl 3**. Rhaid cynnal asesiad effaith pan fydd polisi newydd yn cael ei lunio neu bolisi'n cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Swyddog y Gymraeg hefyd yn aelod o'r Grŵp Buddiant Cydraddoldeb, PAWB, grŵp yr ymgynghorir ag ef o ran pob polisi.

Tabl 3: Polisiau a phenderfyniadau polisi

Y polisiau a'r penderfyniadau polisi y cynhaliwyd asesiadau o'u heffaith ar y Gymraeg yn ystod 2019-20.

Polisi

Polisi Cofnodi Amser Real

Asesiad yr Arweinydd Archwilio Ariannol

Holiadur Adborth 360

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Polisi Addasiadau Rhesymol

Gwaith Partneriaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru

Polisi Gweithio Doethach (dal i fynd rhagddo)

- 27 Byddem yn croesawu'n fawr ganllawiau ar sut i sicrhau ein bod yn cyflawni asesiadau effaith ystyrlon o ran y Gymraeg i'n helpu i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn y ffordd orau bosibl.

Cwynion

- 28 Yn ystod 2019-20, ni ddaeth unrhyw gwynion i law drwy Gomisiynydd y Gymraeg na chan y cyhoedd.
- 29 Ym mis Ionawr 2020, rhoddodd aelod o'r cyhoedd wybod am broblem o ran arolwg ffôn a gynhaliwyd gennym drwy gwmni trydydd parti, ond nid oedd am wneud cwyn ffurfiol. Bu inni gysylltu â'r cwmni trydydd parti, ac fe aeth y cwmni ati i unioni'r sefyllfa gyda'r unigolyn ac i sicrhau bod ei staff yn gwybod am eu cyfrifoldebau o ran y Gymraeg. Aethom ati hefyd i bwysu a mesur ein disgwyliadau o ran y Gymraeg yn ein contractau â chwmnïau trydydd parti, ac rydym wedi newid templed ein contractau i sicrhau bod ein disgwyliadau'n eglur yn y dyfodol. Bu inni hefyd achub ar y cyfle i egluro ein trefniadau mewnol i ymdrin â chwynion, gan gynnwys cwynion sy'n dod i law yn Gymraeg.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Fffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg.

Ebost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru